

Pleidleisiau a Thrafodion – Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

Y Siambr – Y Senedd

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 17 Hydref 2018

Amser y cyfarfod: 13.30

Gellir gwyllo'r cyfarfod ar [Senedd TV](http://senedd.tv/cy/5358) yn:

<http://senedd.tv/cy/5358>

164

1 Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg

Dechreuodd yr eitem am 13.30

Gofynnwyd yr 8 cwestiwn cyntaf. Cafodd cwestiynau 3 a 5 eu grwpio i'w hateb gyda'i gilydd. Atebwyd cwestiwn 4 gan Weinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes. Gwahoddodd y Llywydd lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet a'r Gweinidog ar ôl cwestiwn 2.

2 Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Dechreuodd yr eitem am 14.24

Gofynnwyd cwestiynau 1 – 6 ac 8. Tynnwyd cwestiwn 7 yn ôl. Gwahoddodd y Llywydd lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet ar ôl cwestiwn 2.

3 Cwestiynau Amserol

Dechreuodd yr eitem am 15.19

Ni ddewiswyd unrhyw Gwestiynau Amserol.

4 Datganiadau 90 Eiliad

Dechreuodd yr eitem am 15.19



Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales

Gwnaeth Sian Gwenllian ddatganiad am Mis Hanes Pobl Dduon

Gwnaeth Janet Finch–Saunders ddatganiad am Ganfyddiadau Adroddiad 2018 y Partneriaethau Alcohol Cymunedol

5 Dadl Aelodau o dan Reol Sefydlog 11.21(iv) – Yr Economi Sylfaenol

Dechreuodd yr eitem am 15.22

NDM6782

[Lee Waters \(Llanelli\)](#)

[David Melding \(Canol De Cymru\)](#)

[Jenny Rathbone \(Canol Caerdydd\)](#)

[Hefin David \(Caerffili\)](#)

[Adam Price \(Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr\)](#)

[Vikki Howells \(Cwm Cynon\)](#)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn croesawu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gefnogi sectorau sylfaenol yn ei chynllun gweithredu economaidd ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i fynd ymhellach o ran croesawu egwyddorion yr economi sylfaenol.
2. Yn credu bod dull Cyngor Dinas Preston o adeiladu cyfoeth cymunedol yn amlwg wedi llwyddo i fynd i'r afael ag amddifadedd ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i gwrdd â chynrychiolwyr o Gyngor Dinas Preston i drafod y gwersi y gellir eu dysgu.
3. Yn credu bod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn cynnig cyfle sylweddol i ail–fframio gwerth gorau yng nghyd–destun caffael yng Nghymru, i gefnogi dull yr economi sylfaenol.
4. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddatblygu modelau uchelgeisiol o ofal cymdeithasol i oedolion sy'n cydnabod pwysigrwydd dull lleol ac yn treialu modelau amgen lluosog o ddarparu gofal, fel rhan o ddull gweithredu yr economi sylfaenol yng Nghymru.

Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

6 Dadl ar adroddiad Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau: Diwydiant 4.0 – Dyfodol Cymru

Dechreuodd yr eitem am 16.07

NDM6828 [Russell George \(Sir Drefaldwyn\)](#)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi adroddiad Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau ar ei ymchwiliad, 'Diwydiant 4.0 – dyfodol Cymru', a [osodwyd](#) yn y Swyddfa Gyflwyno ar 17 Awst 2018.

Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

7 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig – Capasiti'r GIG

Dechreuodd yr eitem am 16.56

Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a'r gwelliannau o dan yr eitem hon tan y Cyfnod Pleidleisio.

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig heb ei ddiwygio:

NDM6829 [Darren Millar \(Gorllewin Clwyd\)](#)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn mynegi pryder am gapasiti GIG Cymru i fodloni'r galw am wasanaethau drwy gydol y flwyddyn, nid dim ond yn ystod misoedd y gaeaf.
2. Yn nodi bod pwysau drwy gydol y flwyddyn yn llesteirio gallu'r GIG i ddarparu mynediad cyson a theg at wasanaethau y tu allan i oriau, gofal critigol ac ambiwlans.
3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddatblygu cynllun cenedlaethol cynhwysfawr i ymdrin â phwysau ar wasanaethau y tu allan i oriau, gofal critigol ac ambiwlans, er mwyn sicrhau bod cleifion yn derbyn gwasanaethau amserol sy'n diwallu eu hanghenion.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---------|--------|----------|----------|
| 15 | 1 | 34 | 50 |

Gwrthodwyd y cynnig heb ei ddiwygio.

Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:

Gwelliant 1 – [Julie James \(Gorllewin Abertawe\)](#)

Dileu popeth a rhoi yn ei le:

1. Yn cydnabod y gwaith sy'n cael ei wneud i adeiladu capasiti GIG Cymru i fodloni'r galw am wasanaethau drwy gydol y flwyddyn, nid dim ond yn ystod misoedd y gaeaf.
2. Yn nodi bod angen cydnabod a deall y pwysau sydd drwy gydol y flwyddyn, er mwyn hybu gallu'r GIG i ddarparu mynediad cyson a theg at wasanaethau y tu allan i oriau, gofal critigol ac ambiwlans.
3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gefnogi rhoi Cymru lachach ar waith i ymdrin â'r pwysau ar wasanaethau y tu allan i oriau, gofal critigol ac ambiwlans er mwyn sicrhau bod cleifion yn derbyn gwasanaethau amserol sy'n diwallu eu hanghenion.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 1:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---------|--------|----------|----------|
| 30 | 1 | 19 | 50 |

Derbyniwyd gwelliant 1.

Gan fod gwelliant 1 wedi'i dderbyn, cafodd gwelliannau 2 a 3 eu dad-ddethol

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig fel y'i diwygiwyd:

NDM6829 [Darren Millar \(Gorllewin Clwyd\)](#)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn cydnabod y gwaith sy'n cael ei wneud i adeiladu capasiti GIG Cymru i fodloni'r galw am wasanaethau drwy gydol y flwyddyn, nid dim ond yn ystod misoedd y gaeaf.
2. Yn nodi bod angen cydnabod a deall y pwysau sydd drwy gydol y flwyddyn, er mwyn hybu gallu'r GIG i ddarparu mynediad cyson a theg at wasanaethau y tu allan i oriau, gofal critigol ac ambiwlans.

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gefnogi rhoi Cymru lachach ar waith i ymdrin â'r pwysau ar wasanaethau y tu allan i oriau, gofal critigol ac ambiwlans er mwyn sicrhau bod cleifion yn derbyn gwasanaethau amserol sy'n diwallu eu hanghenion.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---------|--------|----------|----------|
| 28 | 1 | 21 | 50 |

Derbyniwyd y cynnig fel y'i diwygiwyd.

8 Cyfnod pleidleisio

Dechreuodd yr eitem am 18.02

9 Dadl Fer

Dechreuodd yr eitem am 18.04

NDM6830 [Lee Waters \(Llanelli\)](#)

Cyflawni ein hymrwymadau o ran yr hinsawdd – Cymru 100 y cant adnewyddadwy.

Daeth y cyfarfod i ben am 18.24

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mawrth, 23 Hydref 2018